

# Omnibws y Plant 2019

## Mynychiadau Plant a Phobl Ifanc yn y Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy fesul Ffurf Gelf

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

---

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Clawr: Ruby Gibbens Puppetry, Twrch Trwyth, LLAWN - Penwythnos Celfyddydau Llandudno, MOSTYN (llun: Mark McNulty)

# Cynnwys

Cyflwyniad....4
Mynychiadau mewn dramâu....5
Mynychiadau mewn sioeau cerdd
Mynychiadau mewn operâu .... 13
Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol.... 17
Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall .... 21
Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn ôl gradd gymdeithasol.... 22
Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns.... 25
Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns yn ôl gradd gymdeithasol .... 26
Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft.... 29
Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft yn ôl gradd gymdeithasol .... 30
Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol.... 33
Atodiad 1: Diffiniadau Graddau Cymdeithasol .... 41
Atodiad 2: Rhanbarthau.... 42
Atodiad 3: Holiadur Arolwg 2019.... 43

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ers 2007 mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal arolwg blynyddol o fynychiadau a chyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc. Caiff gwybodaeth am fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgareddau artistig ei chasglu trwy gyfres o gwestiynau a ofynnir yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research pob blwyddyn. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth wedi'i ddarparu yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

Ceir cyflwyniad llawn i Omnibws y Plant yn y prif adroddiad o'r enw 'Omnibws y Plant 2019: Mynychiadau a Chyfranogiad Cyffredinol yn y Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy'.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi lefelau mynychiadau yn ôl nodwedd ddemograffig a rhanbarthol ar gyfer pob ffurf gelf.

## Methodoleg

### Cyflwyno data

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau bar a llinell, sy'n dangos canran y plant a phobl ifanc sydd wedi mynychu pob un o'r gweithgareddau y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg. Rhennir y canlyniadau yn ôl rhanbarth a grŵp demograffig allweddol. Lle cyflwynir amlder mynychiadau, mae'n cyfeirio at gyfradd o unwaith y flwyddyn neu amlach. Ceir diffiniadau o ranbarthau a graddau cymdeithasol yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.


### Mynychiadau ar gyfer pob Ffurf Gelf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml maent yn mynychu pob un o'r naw ffurf gelf ganlynol:

- Dramâu
- Sioeau cerdd
- Cerddoriaeth glasurol
- Opera
- Cerddoriaeth fyw arall
- Perfformiadau dawns
- Orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
- Darlleniadau, adrodd storïau a digwyddiadau llenyddol eraill
- Carnifalau a chelfyddydau'r stryd*

*Ychwanegwyd y ffurf gelf hon yn 2010

## Mynychiadau mewn dramâu





Ffigwr 1. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae ychydig o dan hanner y plant a phobl ifanc yn mynychu dramâu o leiaf unwaith y flwyddyn, sef 48.2% - lefel sy'n weddol sefydlog ers 2016.


## Sut a phryd y mynychir dramâu

Mynychodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ddramâu yn ystod oriau ysgol ar ysgogiad ysgolion (61.1%) yn 2019, lefel sy'n sefydlog ers 2018. Mynychodd mwy na thraean ddramâu yn eu hamser eu hunain (33%), a mynychodd lleiafrif ddramâu y tu allan i oriau ysgol ar ysgogiad ysgolion (5.5%).




Ffigwr 2 Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn dramâu yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 3. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu dramâu (52.1%) na phlant o aelwydydd C2DE (44.3%). Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy radd gymdeithasol wedi cynyddu ychydig ers 2018 fodd bynnag: er y cafwyd 1.8 pwynt canran o gynnydd mewn mynychiadau ymysg plant o aelwydydd ABC1, mae mynychiadau wedi gostwng 1.3 pwynt canran ymysg y rheiny o aelwydydd C2DE.


## Mynychiadau mewn dramâu yn ôl rhywedd

Mae merched yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu dramâu (53.8%) na bechgyn (42.7%, yn is na'r lefelau cyfartalog o hyd). Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth o ran mynychiadau rhyngddynt wedi gostwng o 14.3 pwynt canran yn 2018 i 11.1 pwynt canran yn 2019. Mae hyn oherwydd bod mynychiadau wedi gostwng ychydig ymysg merched (gan 1.3 pwynt canran) ac wedi cynyddu ymysg bechgyn (gan 1.9 pwynt canran).




Ffigwr 4.Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn dramâu yn ôl oedran





Mae'r oedrannau ieuengaf yn dal i fynychu dramâu yn amlach (69.8%), ac mae lefelau mynychiadau pobl ifanc 16-18 oed ac 11-15 oed yn dal i fod yn is na'r lefelau cyfartalog (30.7% a 46.1% yn y drefn honno).

Ffigwr 5. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.


## Mynychiadau mewn dramâu yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn rhanbarth y De-orllewin, mae mynychiadau mewn dramâu o leiaf unwaith y flwyddyn wedi cynyddu i 52.5.%. Canolbarth y De, er ei fod wedi gweld gostyngiad mewn lefelau mynychiadau, sy'n dod nesaf gyda 47.3% o blant a phobl ifanc yn mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy. Wedyn daw'r Gogledd (46.3%), ac yna'r De-ddwyrain, gyda pharhad yn y cynnydd, i 44.5%.




Ffigwr 6. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn dramâu yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 7. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae mynychiadau mewn dramâu yn dal i fod yn uwch ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg (61.3%) na rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (40.2%). Mae'r gwahaniaeth yn y lefelau mynychiadau rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 9.7 pwynt canran yn 2018 i 21.1 pwynt canran yn 2019, oherwydd cynnydd mewn mynychiadau ymysg siaradwyr Cymraeg a gostyngiad ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## Mynychiadau mewn sioeau cerdd





Mae mynychiadau mewn sioeau cerdd wedi cynyddu 0.9 pwynt canran i 29.4% o blant a phobl ifanc yn eu mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy.

Ffigwr 8. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy.


## Sut a phryd y mynychir sioeau cerdd

Mynychodd mwy na hanner y plant a phobl ifanc sioeau cerdd yn eu hamser eu hunain yn 2019 (57.2%). Mae mynychiadau a drefnwyd gan ysgolion yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 7.8 pwynt canran i 36.3% ers 2018.




Ffigwr 9. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn sioeau cerdd yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 10. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant o aelwydydd ABC1 yn tueddu i fynychu sioeau cerdd yn fwy (34.9%) na phlant o aelwydydd C2DE (23.6% - llai na chwarter).


## Mynychiadau mewn sioeau cerdd yn ôl rhywedd

Mae merched yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu sioeau cerdd na bechgyn; mae merched yn eu mynychu ar lefelau uwch na'r cyfartaledd (36.5%) ac mae mynychiadau bechgyn yn is na'r lefelau cyfartalog (22.5%). Fodd bynnag, mae mynychiadau wedi gostwng ymysg merched ond wedi cynyddu ymysg bechgyn, gan leihau'r gwahaniaeth rhyngddynt o 18.8 pwynt canran yn 2018 i 14 pwynt canran yn 2019.




Ffigwr 11. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn sioeau cerdd yn ôl oedran





Ffigwr 12. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Yr oedrannau ieuengaf sy'n dal i fod yn fwy tebygol o fynychu sioeau cerdd, sef 38.3%. Ymysg rhai 11-15 oed a rhai 16-18 oed, llai na chwarter a fynychodd sioeau cerdd o leiaf unwaith yn 2019 (24.5% a 21.7% yn y drefn honno).


## Mynychiadau mewn sioeau cerdd yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Erbyn hyn mae lefelau mynychiadau mewn sioeau cerdd yn debyg ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. Dim ond 2.9 pwynt canran o wahaniaeth sydd rhwng yr uchaf (De-orllewin, 30.8%) a'r isaf (Gogledd, 27.9%). Mae hyn yn 5.5 pwynt canran o gynnydd i'r Gogledd, i lefelau uwch nag yn 2017. Mae mynychiadau'n dal i gynyddu yn y De-ddwyrain, gyda 4.1 pwynt canran o gynnydd i 28.9%.




Ffigwr 13. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn sioeau cerdd yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 14. Canran y plant a phobl ifanc sy’n mynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu sioeau cerdd (38.2%). Mae mynychiadau ymysg rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn dal i fod yn is na’r cyfartaledd; ychydig llai na chwarter ohonynt sy’n mynychu sioeau cerdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Mynychiadau mewn operâu





Ffigwr 15. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mynychiadau mewn operâu yw'r isaf ymysg yr holl ffurfiau celf; 2.1% oedd canran y mynychiadau ymysg plant a phobl ifanc yn 2019.


## Sut a phryd y mynychir operâu

Yn 2018 mynychwyd operâu yn ystod amser plant a phobl ifanc eu hunain gan fwyaf (67.5%), ond erbyn hyn fe'u mynychir gan fwyaf yn ystod oriau ysgol ar ysgogiad ysgolion (51.8%).




Ffigwr 16. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn operâu yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 17. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o fynd i'r opera (2.6%), na'r rheiny o aelwydydd C2DE (1.5%). Cafwyd ychydig o gynnydd yn y mynychiadau ar gyfer y ddau grŵp, gan 0.3 pwynt canran i blant o gartrefi ABC1 a chan 1.1 pwynt canran i'r rheiny o gartrefi C2DE.


## Mynychiadau mewn operâu yn ôl rhywedd

Ar ôl gostyngiad yn y mynychiadau rhwng 2017 a 2018, mae mynychiadau mewn operâu yn mynd yn ôl i 2% ymysg merched. Mae'n dal i fod yn is na'r mynychiadau ymysg bechgyn (2.2%).




Ffigwr 18. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn operâu yn ôl oedran





Ffigwr 19. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Yn 2018 roedd y mynychiadau uchaf mewn operâu ymysg rhai 16-18 oed. Fodd bynnag, yn 2019 rhai 7-10 oed sy'n fwyaf tebygol o fynd i'r opera (2.8%), ac yn ail agos mae rhai 16-18 oed (2.7%). Rhai 11-15 oed sydd â'r lefelau isaf o fynychiadau mewn operâu o hyd, sef 1.4%.


## Mynychiadau mewn operâu yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r De-ddwyrain wedi gweld cynnydd sydyn mewn mynychiadau mewn operâu (3.6%), ynghyd â Chanolbarth y De (2.8%). Mae gan y De-orllewin a'r Gogledd lefelau tebyg o fynychiadau o hyd, yn is na'r cyfartaledd (1% ac 1.3% yn y drefn honno).




Ffigwr 20. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Mynychiadau mewn operâu yn ôl y gallu i siarad Cymraeg





Ffigwr 21. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae nifer gynyddol o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn mynychu operâu o hyd: mynychodd 3.7% yn 2019, 1.3 pwynt canran o gynnydd ers 2018.

Ar ôl 1.5 pwynt canran o ostyngiad rhwng 2017 a 2018, cynyddodd mynychiadau mewn operâu unwaith eto ymysg rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, er gan lai nag 1 pwynt canran.

## Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol





Ffigwr 22. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy.

Ar ôl y gostyngiad mwyaf mewn mynychiadau ymysg yr holl ffurfiau celf yn 2018, mae digwyddiadau cerddoriaeth glasurol wedi gweld cynnydd mewn mynychiadau yn 2019: mynychodd 7% o blant a phobl ifanc unwaith y flwyddyn neu'n amlach, sef 1.2 pwynt canran o gynnydd. Dyma'r ffurf gelf sydd â'r mynychiadau lleiaf ar ôl opera.


## Sut a phryd y mynychir cerddoriaeth glasurol

Yn 2019, mynychodd plant a phobl ifanc ddigwyddiadau cerddoriaeth glasurol yn eu hamser eu hunain (50.1%) neu yn ystod oriau ysgol (41.1%) gan fwyaf; mynychodd lleiafrif ar ysgogiad eu hysgolion ond y tu allan i oriau ysgol (8.8%).




Ffigwr 23. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 24. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 bron dwywaith yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau cerddoriaeth glasurol na'r rheiny o gartrefi C2DE.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp wedi gostwng ers 2018, gan fwyaf ar ôl cynnydd mewn mynychiadau ymysg plant o aelwydydd C2DE (gan 1.6 pwynt canran).


## Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol yn ôl rhywedd

Mae merched yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau cerddoriaeth glasurol o leiaf unwaith y flwyddyn, sef 8.2% (2% o gynnydd ers 2018), ac mae mynychiadau bechgyn yn dal i fod yn is na'r lefelau cyfartalog, sef 5.9%.




Ffigwr 25. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol yn ôl oedran





Ffigwr 26. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Mae mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth glasurol wedi cynyddu ar gyfer pob grŵp oedran ers 2018. Maent yr un peth ymysg rhai 11-15 oed a rhai 16-18 oed (7.1%) ac ar eu huchaf ymysg rhai 7-10 oed (8.5%).

## Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru


Y De-orllewin o hyd yw'r rhanbarth gyda'r mynychiadau uchaf mewn digwyddiadau cerddoriaeth glasurol ymysg plant a phobl ifanc, sef 8.7% (2 pwynt canran o gynnydd ers 2018). Wedyn daw'r De-ddwyrain (7.4%, y cynnydd mwyaf ymysg y 4 rhanbarth yn 2019), yna Canolbarth y De (7.1%). Yr unig ranbarth a welodd lai o fynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol yw'r Gogledd, lle mae 4.1% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn.




Ffigwr 27. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn cerddoriaeth glasurol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg

Mae plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg mwy na dwywaith yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau cerddoriaeth glasurol na rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (10.7% a 4.9% yn y drefn honno).




Ffigwr 28. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu cerddoriaeth glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall





Ffigwr 29. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn dal i ddangos gostyngiad graddol mewn mynychiadau; ychydig mwy na thraean plant a phobl ifanc a'u mynychodd o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019 (3.1 pwynt canran o ostyngiad ers 2018). Dyma'r gostyngiad mwyaf mewn mynychiadau yn 2019 ymysg yr holl ffurfiau celf a fynychwyd.


## Sut a phryd y mynychir digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall

Mynychodd y mwyafrif o blant a phobl ifanc ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn eu hamser eu hunain (84.8%), ond mae hyn yn 6.3 pwynt canran o ostyngiad ers 2018. Er eu bod yn lleiafrif, gwelwyd cynnydd yn y mynychiadau a drefnwyd gan ysgolion, yn ystod (10.6%) a hefyd y tu allan i oriau ysgol (3.6%).




Ffigwr 30. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 31. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Er bod plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall na'r rheiny o gartrefi C2DE (39.8% a 31.8% yn y drefn honno), mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp wedi gostwng. O 12.5 pwynt canran yn 2018, gostyngodd i 8 pwynt canran yn 2019.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn ôl rhywedd

Mae merched yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall na bechgyn, er bod y mynychiadau ar gyfer y ddau wedi gostwng: gan 3.6 pwynt canran i fechgyn a 2.6 pwynt canran i ferched. Mae mynychiadau bechgyn yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd, sy'n wir ers 2017.




Ffigwr 32. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn ôl oedran





Ffigwr 33. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Yn wahanol i fathau eraill o ddigwyddiadau cerddorol, mynychodd mwy na hanner y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw arall o leiaf unwaith yn 2019 sef 52.1% - yr unig gynnydd mewn mynychiadau ymysg yr holl grwpiau oedran. Mae mynychiadau wedi gostwng i 35.1% ymysg rhai 11-15 oed ac i 27.3% ymysg rhai 7-10 oed.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r mynychiadau mwyaf mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn rhanbarth y De-orllewin (41.5%), wedyn yn y De-ddwyrain (36.1%). Canolbarth y De sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn mynychiadau yn 2019, gan 10.3 pwynt canran i 33.6%. Mae mynychiadau yn y Gogledd hefyd wedi gostwng, i 30.4%.




Ffigwr 34. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 35. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall na rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (44.5% a 30.6% yn y drefn honno). Mae mynychiadau wedi gostwng yn y ddau grŵp.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns





Ffigwr36. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae mynychiadau mewn digwyddiadau dawns wedi gostwng yn ôl i lefelau 2017, gyda rhyw bumed (19.9%) o blant a phobl ifanc yn eu mynychu o leiaf unwaith yn 2019.


## Sut a phryd y mynychir digwyddiadau dawns

Mae plant a phobl ifanc yn mynychu digwyddiadau dawns yn eu hamser eu hunain gan fwyaf (54.5%), er y gwelwyd gostyngiad sydyn ers 2018 (gan 15.6 pwynt canran). Yn eu tro, mae mynychiadau a drefnir gan ysgolion wedi cynyddu i 30.3% ar gyfer digwyddiadau a fynychir yn ystod oriau ysgol ac i 13.1% ar gyfer digwyddiadau a fynychir y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 37. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 38. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o gartrefi ABC1 yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau dawns o leiaf unwaith y flwyddyn na'r rheiny o aelwydydd C2DE (23.5% ac 16.2% yn y drefn honno). Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy radd gymdeithasol wedi cynyddu, o 4.2 pwynt canran yn 2018 i 7.3 pwynt canran yn 2019.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns yn ôl rhywedd

Mae merched yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy na bechgyn (26.1% ac 13.9% yn y drefn honno). Mae mynychiadau wedi gostwng ymysg merched, o 30.1% yn 2018 i 26.1% yn 2019. Mae mynychiadau bechgyn yn dal i fod yn is na'r lefelau cyfartalog.




Ffigwr 39. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns yn ôl oedran





Ffigwr 40. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Y grŵp oedran ieuengaf yw'r un mwyaf tebygol o fynychu digwyddiadau dawns (21.9%), er bod eu mynychiadau wedi gostwng gan ddod â hwy yn agos at rai 16-18 oed (18.7%) a rhai 11-15 oed (20.5%).


## Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Canolbarth y De a'r Gogledd sydd â'r mynychiadau mwyaf mewn digwyddiadau dawns yn 2019 (21.3% a 21.2% yn y drefn honno). Maent wedi gostwng yn is na'r lefelau cyfartalog i 19% yn y De-orllewin (6.6 pwynt canran o ostyngiad). Mae lefelau mynychiadau wedi cynyddu ychydig ond yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd yn y De-ddwyrain, sef 17.6%.




Ffigwr 41. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau dawns yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 42. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg sy'n fwyaf tebygol o fynychu digwyddiadau dawns (25.4%); mae hyn wedi aros yn sefydlog ers 2018. Mae mynychiadau wedi gostwng ymysg plant nad ydynt yn siarad Cymraeg, fodd bynnag, i 16.6%.

## Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft





Ffigwr 43. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft wedi gostwng ychydig (gan 1 pwynt canran ers 2018), gyda 41.4% o blant a phobl ifanc yn eu mynychu o leiaf unwaith yn 2019.


## Sut a phryd y mynychir orielau neu arddangosfeydd celf/crefft

Mae plant a phobl ifanc yn mynychu orielau ac arddangosfeydd yn eu hamser eu hunain gan fwyaf (59.6%), gyda 34.4% yn eu mynychu yn ystod oriau ysgol ar ysgogiad ysgolion.




Ffigwr 44. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft yn ôl gradd gymdeithasol





Mae plant a phobl ifanc o gartrefi ABC1 yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu orielau/arddangosfeydd na'r rheiny o gartrefi C2DE (47.7% a 35.1% yn y drefn honno, er bod y gwahaniaeth wedi lleihau, gan fwyaf oherwydd gostyngiad mewn mynychiadau ymysg y grŵp ABC1 (gan 4.4 pwynt canran).

Ffigwr 45. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.


## Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft yn ôl rhywedd

Merched sy'n fwyaf tebygol o fynychu orielau/arddangosfeydd sef 45.9%. Gyda gostyngiad mewn mynychiadau ymysg bechgyn i 37%, mae'r gwahaniaeth mewn mynychiadau rhwng merched a bechgyn wedi cynyddu o 3.6 pwynt ca-0763  ran yn 2018 i 8.9 pwynt canran yn 2019.




Ffigwr 46. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft yn ôl oedran





Ffigwr 47. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Mae plant iau yn dal i fod yn fwy tebygol o fynychu orielau/arddangosfeydd (51.6%) na phlant hŷn (47.3%) a phobl ifanc (22.5%). Fodd bynnag, mae eu lefel mynychiadau wedi gostwng 5.6 pwynt canran ond mae mynychiadau rhai 11-15 oed wedi cynyddu 7.4 pwynt canran. Mae mynychiadau pobl ifanc hefyd wedi gostwng, gan 7.1 pwynt canran – y gostyngiad mwyaf mewn mynychiadau ymysg yr holl grwpiau oedran.


## Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Y De-orllewin sydd â'r mynychiadau uchaf mewn orielau ac arddangosfeydd celf/crefft (sef 44.6%, yr unig ranbarth lle cofnodwyd cynnydd mewn mynychiadau mewn orielau/arddangosfeydd yw'r De-orllewin gyda 44.6%). Wedyn daw Canolbarth y De (43.7%) a'r De-ddwyrain (41.6%). Cofnodwyd y mynychiadau isaf yn y Gogledd, sef 33.5%, yr unig ranbarth â mynychiadau is na'r cyfartaledd ers 2017.




Ffigwr 48. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 49. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu orielau neu arddangosfeydd celf/crefft unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae plant ac oedolion ifanc sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fynychu orielau ac arddangosfeydd celf/crefft na rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (44.5% a 39.6% yn y drefn honno).

## Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol





Ffigwr 50. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae'r cynnydd mewn mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn parhau yn 2019, gyda 29.4% o blant a phobl ifanc yn eu mynychu o leiaf unwaith – 3.2 pwynt canran o gynnydd. Dyma'r cynnydd mwyaf mewn mynychiadau ymysg yr holl ffurfiau celf yn 2019.


## Sut a phryd y mynychir digwyddiadau llenyddol

Mynychir digwyddiadau llenyddol yn ystod oriau ysgol gan fwyaf, a gwelwyd cynnydd sydyn yn y lefelau hyn i 72.6% yn 2019. Mae mynychiadau yn ystod amser plant eu hunain wedi gostwng i 19.2%.




Ffigwr 51. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 52. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant o aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau llenyddol (30.4%) o leiaf unwaith y flwyddyn na phlant o gartrefi C2DE, er bod y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp wedi lleihau yn dilyn cynnydd mewn mynychiadau ymysg plant o gartrefi C2DE i 28.5% (5.4 pwynt canran o gynnydd).


## Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn ôl rhywedd

Mae merched yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau llenyddol na bechgyn o 2.2 pwynt canran, sef 30.5%. Gwelwyd cynnydd mewn lefelau mynychiadau yn y ddau grŵp, gan 3.5 pwynt canran ymysg merched a 2.9 pwynt canran ymysg bechgyn. Dim ond mynychiadau bechgyn sy'n is na'r cyfartaledd yn 2019.




Ffigwr 53. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn ôl oedran





Ffigwr 54. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Mae mwy na hanner y rhai 7-10 oed yn mynychu digwyddiadau llenyddol o leiaf unwaith y flwyddyn, sef 53.5%. Er eu bod yn is na'r lefelau cyfartalog, mae mynychiadau'r rhai 11-15 oed wedi cynyddu 4.4 pwynt canran i fwy na chwarter y mynychwyr. Mae pobl ifanc 16-18 oed yn llai tebygol o'u mynychu nag yn 2018, sef 3.9% - yr unig grŵp oedran lle gwelwyd gostyngiad mewn mynychiadau yn 2019.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn y De-orllewin y cofnodwyd y mynychiadau uchaf ymysg plant a phobl ifanc yn 2019 gyda 31.4% yn mynychu digwyddiadau llenyddol o leiaf unwaith y flwyddyn. Wedyn daw'r De-ddwyrain (31%) ac yna Canolbarth y De (28.9%). Yn y Gogledd y cafwyd y cynnydd mwyaf mewn mynychiadau, gyda 25.6% o blant yn mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2019.




Ffigwr 55. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 56. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae mynychiadau mewn digwyddiadau llenyddol yn uwch ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg (33.3%) nag ymysg rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (26.9%). Mae mynychiadau'r ddau grŵp wedi cynyddu ers 2018, gan 3.4 pwynt canran i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg a chan 2.7 pwynt canran i siaradwyr Cymraeg.

## Mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd





Ffigwr 57. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy.

Ar ôl cynnydd yn 2018, mae mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd wedi gostwng 1.1 pwynt canran i 53.8% yn 2019. Fodd bynnag, y ffurf gelf hon sy'n dal i fod yr un a fynychir mwyaf ymysg plant a phobl ifanc ers 2017, gyda mwy na hanner yn ei mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn.


## Sut a phryd y mynychir carnifalau a chelfyddydau'r stryd

Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yn mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn eu hamser eu hunain, sef 95.8%.




Ffigwr 58. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl lleoliad.

## Mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 59. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd ABC1 yn tueddu i fynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn fwy na'r rheiny o gartrefi C2DE (55.9% a 51.8% yn y drefn honno). 1.3 pwynt canran oedd y gwahaniaeth rhwng y grwpiau yn 2018, ond mae wedi cynyddu i 4.1 pwynt canran yn 2019.


## Mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl rhywedd

Er bod bechgyn yn fwy tebygol o fynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd na merched o lai nag un pwynt canran yn 2018, mae'r duedd hon wedi gwrthdroi yn 2019: mynychodd 58.6% o ferched o leiaf unwaith, o gymharu ag ychydig llai na hanner bechgyn (49.2%). Mae hwn yn 6 pwynt canran o ostyngiad i fechgyn, ac yn 4 pwynt canran o gynnydd i ferched.




Ffigwr 60. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

## Mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl oedran





Ffigwr 61. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Gan ddilyn yr un duedd ag yn 2018, yn 2019 mae mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd ar eu huchaf ymysg rhai 7-10 oed (49.2%), wedyn rhai 11-15 oed (48.4%) a rhai 16-18 oed (45.1%). Gwelwyd gostyngiad mewn mynychiadau ym mhob grŵp oedran rhwng 2018 a 2019 fodd bynnag, gyda'r gostyngiad mwyaf ymysg rhai 7-10 oed, sef 10 pwynt canran.


## Mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn 2018 y De-orllewin oedd â'r mynychiadau uchaf mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd, ond yn 2019 y Gogledd oedd â'r mynychiadau uchaf, gan fod 65.9% o blant yno wedi eu mynychu o leiaf unwaith – yr unig gynnydd mewn mynychiadau ymysg yr holl ranbarthau yn 2019. Mae mynychiadau yn y De-ddwyrain a Chanolbarth y De yn dal i fod yn is na'r lefelau cyfartalog (48.2% a 42.5% yn y drefn honno).




Ffigwr 62. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Mynychiadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 63. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Roedd mynychiadau siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd ar lefelau tebyg yn 2018, gyda mynychiadau rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg dim ond 1 pwynt canran yn uwch, ychydig bach yn is na'r lefelau cyfartalog. Fodd bynnag, yn 2019 neidiodd mynychiadau siaradwyr Cymraeg i 64.7%, 17.5 pwynt canran uwchben lefel rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## Atodiad 1: Diffiniadau Graddau Cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu raddau cymdeithasol, sydd wedi'u seilio ar alwedigaeth Prif Enillydd Incwm yr aelwyd. Mae gan bawb ar yr aelwyd yr un radd gymdeithasol â'r Prif Enillydd Incwm. I gynorthwyo â'r gwaith dadansoddi, mae'r tair gradd gyntaf a'r tair gradd olaf yn aml yn cael eu rhoi mewn grwpiau fel ABC1 a C2DE, a welir fel y 'Dosbarthiadau Canol' a'r 'Dosbarthiadau Gweithiol':

| | | |
|---|---|---|
| A | "Dosbarth canol uwch" – swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol | **ABC1** – swyddi proffesiynol, cymwys a rhai lle na wneir gwaith â llaw |
| B | "Dosbarth canol" - swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithiwr cymdeithasol | |
| C1 | "Dosbarth canol is" - swyddi goruchwylio, clerigol, is-reoli e.e. gweithwyr swyddfa/clerigol, goruchwyliwr ffatri, clerc banc, gwerthwr, myfyriwr | |
| C2 | "Dosbarth gweithiol medrus" - gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman | **C2DE** – gweithwyr llaw medrus, lled fedrus a heb sgiliau, a phobl nad ydynt yn gweithio |
| D | "Dosbarth gweithiol" - gweithwyr llaw lled-fedrus a heb sgiliau e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar | |
| **E** | Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr achlysurol. | |

## Atodiad 2: Rhanbarthau

Diffiniadau Cyngor Celfyddydau Cymru o ranbarthau yw'r diffiniadau rhanbarthol y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain i'w gweld isod:

| Enw'r Rhanbarth | Diffiniad |
|---|---|
| Y Gogledd | Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd |
| Y De-orllewin | Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot |
| Canolbarth y De | Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful |
| Y De-ddwyrain | Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent |

# Atodiad 3: Holiadur Arolwg 2019

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
**Cwestiynau Terfynol – Omnibws y Plant 2019**

DANGOS CERDYN
**C1 Pa mor aml wyt ti'n mynd i bob un o'r gweithgareddau rydw i'n eu darllen ichi?**

Yn gyntaf, pa mor aml wyt ti'n:

Mynd i ddramâu

.....Sawl gwaith yr wythnos
.....Unwaith yr wythnos
.....2 neu 3 gwaith y mis
.....Unwaith y mis
.....Unwaith pob 2 i 3 mis
.....2 neu 3 gwaith y flwyddyn
.....Unwaith y flwyddyn
.....Llai aml
.....Byth

AILADRODDWCH AR GYFER:

Mynd i sioeau cerdd
Mynd i'r opera
Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol
Mynd i gerddoriaeth fyw arall
Mynd i berfformiadau dawns
Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
Mynd i ddarlleniadau, adrodd storïau neu ddigwyddiadau llenyddol eraill
Mynd i garnifalau a chelfyddydau'r stryd

--

DANGOSWCH Y CERDYN
**C2 Y tro diwethaf est ti i weld drama,** (dylech ofyn ynghylch pob gweithgaredd a fynychwyd o leiaf unwaith y flwyddyn yn C1) **a oedd yr ymweliad:**

wedi'i drefnu gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol
wedi'i drefnu gan ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol
yn dy amser dy hun (heb ei drefnu gan ysgol/coleg)

AILADRODDWCH AR GYFER POB GWEITHGAREDD A FYNYCHWYD UNWAITH Y FLWYDDYN NEU'N AMLACH

--

DANGOSWCH Y CERDYN
**C3 Pa mor aml wyt ti'n <u>cymryd rhan</u> yn y gweithgareddau rydw i'n eu darllen ichi?**

Yn gyntaf, pa mor aml wyt ti'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (fel canu neu chwarae offeryn)

.....Sawl gwaith yr wythnos
.....Unwaith yr wythnos
.....2 neu 3 gwaith y mis
.....Unwaith y mis
.....Unwaith pob 2 i 3 mis
.....2 neu 3 gwaith y flwyddyn
.....Unwaith y flwyddyn
.....Llai aml
.....Byth

AILADRODDWCH AR GYFER:

Cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatr (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)
Cymryd rhan mewn gweithgaredd dawns (nid disgo/mynd i glwb)
Cymryd rhan mewn gwneud ffilm neu fideo, neu ffotograffiaeth
Cymryd rhan mewn celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. paentio, tecstilau)

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celfyddydau gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ail-gymysgu cynnwys sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, er enghraifft ar YouTube, Flickr, ac ati)
Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu storïau)

--

DANGOSWCH Y CERDYN
**C4 Y tro diwethaf y cymeraist ti ran mewn gweithgaredd cerddorol** (dylech ofyn ar gyfer pob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yn C3) **a oedd:**

yn yr ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol
yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol
yn dy amser dy hun (heb fod yn ystod oriau ysgol/coleg)

AILADRODDWCH AR GYFER POB GWEITHGAREDD Y CYMERWYD RHAN YNDDO UNWAITH Y FLWYDDYN NEU'N AMLACH